Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Briffio 7 Munud

# Adolygiad Ymarfer Oedolion




## 1 Cefndir

Cafodd Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Gwent yn unol â Chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol.

Daeth dau ofalwr o hyd i Oedolyn A wedi marw yn y bore yn ystod ymweliad cartref. Roedd Oedolyn A mewn ystum annaturiol gyda'i braich wedi'i dal yn rheilen y gwely.

Oherwydd adroddiad o farwolaeth sydyn, aeth yr Heddlu i'r lleoliad a chafodd atgyfeiriad ei gyflwyno i'r Awdurdod Lleol gan yr asiantaeth gofal. Mynegodd teulu Oedolyn A bryderon i'r Heddlu ynghylch addasrwydd offer, a dywedon nhw eu bod wedi rhoi gwybod am y pryderon hyn yn flaenorol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2 Cefndir

Yn dilyn nifer o ymholiadau, cafodd cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth ei drefnu. Daeth i'r amlwg mai'r offer a oedd wedi'i ddogfennu ar nodiadau WCCIS y Therapydd Galwedigaethol (OT) oedd yn wahanol i'r offer ar gyfer Oedolyn A.

Roedd y Therapydd Galwedigaethol a fynychodd y cyfarfod strategaeth o'r farn bod yr offer yn y llun yn wahanol i'r hyn yr oedden nhw wedi gofyn amdano. Roedd yn debyg ond nid yr hyn roedd y Therapydd Galwedigaethol yn disgwyl ei weld yn y ffotograff. Mae'n bosibl, pe bai'r offer wedi bod yn unol â'r cais, na fyddai braich Oedolyn A wedi gallu mynd yn sownd/cael ei dal. Byddai gan yr offer raniad solet ac nid rheiliau agored. Roedd gan Oedolyn A ddefnydd o'i braich chwith yn unig, a honno oedd y fraich a oedd wedi cael ei dal yn yr offer rheilen gwely.

## 3 Themâu wedi'u nodi

- **Asesiadau:** Roedd yn ymddangos bod diffyg perchnogaeth gan yr holl asiantaethau - y gwasanaethau statudol ac annibynnol - ac nid oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am gydlynu, cyfathrebu ac asesu'n gyfannol anghenion newidiol Oedolyn A.
- **Rhannu gwybodaeth a gweithio mewn seilos ar wahân rhwng unigolion/gweithwyr proffesiynol/asiantaethau.:** Roedd dulliau gwahanol o gadw cofnodion yn ddryslyd ac nid oedden nhw'n helpu cyfathrebu a rhannu negeseuon allweddol.
- **Terminoleg wahanol** Mae terminoleg wahanol yn gallu bod yn rhwystr wrth gyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Ar gyfer unrhyw asiantaeth sy'n ceisio deall byrfoddau ei gilydd, rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y dehongliad cywir yn cael ei ddefnyddio ac nad yw'n cael ei dybio.

## 4 Themâu wedi'u nodi

- **Rolau a Chyfrifoldebau:** Ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, nid yw'r cynllun gofal yn cael ei reoli gan un person. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn cymryd rhan am gyfnodau byr, felly, mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i'r person arweiniol sy'n gyfrifol am y cynllun gofal.
- **Effaith COVID-19:** Cafodd y pandemig effaith andwyol ar wasanaethau. Mae'n ymddangos bod pob asiantaeth statudol wedi dibynnu ar y gofalwyr i reoli anghenion Oedolyn A.
- **Hyfforddiant ac atgyfeiriadau**: Nid yw'n glir a yw gofalwyr annibynnol yn cael yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd eu hangen i ddeall y dangosyddion cyfannol, hirdymor o iechyd a lles sy'n gwaethygu. Byddai angen atgyfeiriad i ofyn am asesiad arall, ac ni ddigwyddodd hyn.
- **Llais y defnyddiwr gwasanaeth:** Mae yna ymdeimlad roedd gormod o ffocws ar offer a phroses yn hytrach na chlywed beth roedd Oedolyn A a'i theulu yn gofyn amdano a beth oedd yn bwysig iddyn nhw.

## 5 Dysgu a gweithredu

- **Llyfr cyfathrebu/cofnodlyfr rhithwir:** Lle mae gwahanol fecanweithiau cofnodi yn bodoli, rhaid ystyried cadw llyfr cyfathrebu/cofnodlyfr rhithwir y mae pob asiantaeth ac aelod o'r teulu yn gallu gael mynediad ato er mwyn sicrhau bod gwybodaeth amserol yn cael ei rhannu.
- **Rolau a chyfrifoldebau** Mewn perthynas â chwympiadau a dangosyddion lles sy'n gwaethygu wrth weithio gyda phobl yn y gymuned, rhaid bod rolau a chyfrifoldebau gael eu deall yn glir.
- **Uwchgyfeirio digwyddiadau allweddol** Dylai comisiynwyr ystyried bod uwchgyfeirio digwyddiadau allweddol o ddarparwyr allanol i reolwyr achos yn rhan o ofynion y contract craidd. Hefyd, dylai fod sicrwydd o brosesau uwchgyfeirio a chyfathrebu yn y gymuned gyda phob asiantaeth yn cymryd perchnogaeth. Rhaid i'r prosesau hyn ddangos tystiolaeth eu bod yn cynnwys yr asiantaethau partner, y teulu a'r person sy'n wynebu risg.

## 6 Dysgu a Gweithredu

- **Cydlynu gofal.** Pan mae pecyn gofal aml-asiantaeth yn ei le, rhaid ystyried penodi person allweddol/gweithiwr proffesiynol arweiniol sy'n gyfrifol am gydlynu'r gofal.
- **COVID-19:** Asiantaethau ac Awdurdodau Lleol i gyfrannu at yr adolygiad rhanbarthol a chenedlaethol o ymatebion i COVID-19 a bod yn ymwybodol o'r argymhellion pan maen nhw'n cael eu cyhoeddi.
- **Amharu ar Ddarparu Gwasanaethau:** Pob asiantaeth i ystyried adolygu eu cyfathrebu â phartneriaid allanol, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd pan fydd ffactorau allanol yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau (pandemigau iechyd, tywydd garw ac ati).
- **Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth:** Pob asiantaeth i gael eu hatgoffa y dylen nhw gynnwys teuluoedd a dinasyddion mewn sgyrsiau a chyfathrebiadau am eu hanghenion gofal datblygol.

## 7 Arfer cadarnhaol

- **Nyrsys ardal -** Ymweld yn rheolaidd ac yn gyson ac yn cwblhau cynlluniau gofal yn ystod eu hymweliadau. Diagnosis priodol o friw lleithder gan brif nyrs brofiadol. Rhoddodd Oedolyn A ganiatâd yn rheolaidd i weithwyr gofal cyn iddyn nhw wirio ardaloedd/clwyfau a chwblhau arsylwadau. Roedden nhw'n cyfathrebu â'r teulu. Map y corff/croen wedi'i wirio bob ymweliad. Gadawodd nodiadau gydag Oedolyn A yn ei chartref er mwyn i eraill gael mynediad atyn nhw.
- **Adolygu ac Asesu**– Yn dilyn adroddiad o ddryswch ym mis Gorffennaf 2019, trefnodd y Gweithiwr Cymdeithasol adolygiad amserol. Cynhaliodd y Nyrs Seiciatrig Gymunedol a'r Gweithiwr Cymdeithasol Asesiad Galluedd. Cafodd llythyr ei anfon at y teulu gyda Chynllun ac Adolygiad Gofal a Chymorth. Mae trefniadau adolygiadau blynyddol wedi'u cadarnhau ac mae'r pecyn gofal yn parhau 4 gwaith y dydd. Roedd cynlluniau wrth gefn o ran cyfyngiadau symud wedi'u gwneud rhwng Gwasanaethau i Oedolion a'r teulu.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i wefan Bwrdd Diogelu Gwent a chwilio am adolygiadau ymarfer oedolion gan ddefnyddio'r dynodwr, GWASB 2-2020
www.gwentsafeguarding.org.uk/cy